**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Mercher 8 Tachwedd 2023**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans (Teams), Mike Humphreys, Emlyn Roberts, Caroline Sanger-Davies (Teams), Vicki Spencer-Francis (Teams)

**Trwy Wahoddiad:** -

**Y Swyddogion Gweithredol yn bresennol:** Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Rachael Madeley-Davies (Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol)
Laura Pickup (Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau)
Bryan Regan (Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i gyfarfod y Bwrdd gan y Cadeirydd.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar gyfarfod blaenorol y Bwrdd:

Yn ystod mis Medi 2023, bu'r Cadeirydd yn rhan o'r broses recriwtio ar gyfer Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru Llywodraeth Cymru.

28 Medi 2023 – Y Cadeirydd a Phennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol yn mynychu Cynhadledd Ffermio Cynaliadwy NFU Cymru ym Mynytho, Pwllheli.

5 Hydref 2023 – Cyfarfod diweddaru Teams ar gyfer Bwrdd HCC

11 Hydref 2023 – Cyfarfod Fforwm Ffermwyr HCC, Glynllifon, Caernarfon gyda'r Swyddogion Gweithredol.

17 Hydref 2023 – Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol HCC.

19 Hydref 2023 – Bu'r Cadeirydd a Phennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol mewn diweddariad Teams gyda swyddogion NFU Cymru a Swyddogion Gweithredol.

23 Hydref 2023 – Bu'r Cadeirydd yn nigwyddiad Undeb Amaethwyr Cymru cyn Sioe Laeth Cymru ym Marchnad Da Byw Caerfyrddin.

24 Hydref 2023 – Bu'r Cadeirydd a' Phennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol yng Nghinio Gala Blas ar Gymru drwy wahoddiad Y Gweinidog dros Faterion Gwledig.

25 – 26 Hydref 2023 – Bu'r Cadeirydd a Swyddogion Gweithredol yn arddangosfa Blas ar Gymru yn y Ganolfan Gynadledda Ryngwladol (ICC), Casnewydd.

11 Tachwedd 2023 – Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol HCC.

22 Tachwedd 2023 – Bu’r Cadeirydd, ynghyd â Swyddogion Gweithredol, mewn rhith gyfarfod rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraethiant HCC.

Parhaodd cyfarfodydd Teams yn gyson gyda’r Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol mewn perthynas â pharhad busnes.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau gan Aelod o’r Bwrdd, Prys Morgan; Maria Richards o Lywodraeth Cymru a Gwyn Howells, y Prif Weithredwr, sy’n dal i fod ar seibiant salwch.

Yn absenoldeb y Prif Weithredwr, nodwyd bod y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol yn parhau i fod yn Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau newydd.

4. **I gymeradwyo cofnodion:**

a. *Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 7 Medi 2023 (HCC 1155)*

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod uchod wedi eu darllen, cawsant eu derbyn gan y Bwrdd a’u llofnodi gan y Cadeirydd.

b. *Cyfarfod diweddaru Teams y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Hydref 2023 (HCC 1156)*

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod uchod wedi eu darllen, cawsant eu derbyn gan y Bwrdd a’u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*O Eitem 4a uchod*

*Prif Swyddog Milfeddygol newydd Cymru, Dr Richard Irvine – Cyflwyniad i'r Bwrdd*

Nodwyd bod cadarnhad wedi dod i law y byddai Dr Irvine yn mynychu cyfarfod y Bwrdd a drefnwyd ar gyfer 11 Ionawr 2024.

*Ardoll*

Roedd gwaith ar y gweill gyda’r Swyddogion Gweithredol o ran cyflwyno cynnig i’r Bwrdd ei ystyried yn y cyfarfod ar 11 Ionawr 2024 ar Gyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2024/2025.

*Enillion Ardoll*

Roedd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol wedi cyfathrebu â’r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth a QMS ynghylch gwirio ffurflenni Ardoll.

*HCC – Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi: Statws TAW*

Mae Eitem 9a isod yn cyfeirio at hyn.

*O Eitem 4b uchod*

Roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cyflawni ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6. **I ystyried yr adolygiad chwe misol o berfformiad Cynllun Gweithredol HCC 2023 / 2024 yn ôl Dangosyddion Perfformiad Allweddol (HCC 1157)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafwyd crynhoad ohono gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol.

Roedd y ddogfen yn amlinellu perfformiad HCC yn ôl targedau (pan oedd yn briodol i fesur) yn ôl Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer chwe mis cyntaf blwyddyn ariannol 2023 / 2024.

Amlygwyd esboniadau a diweddariadau ynghylch Dangosyddion Perfformiad Allweddol DPA yn yr adran nodiadau a chawsant eu nodi gan y Bwrdd.

7. **Y broses hynllunio ar gyfer Cynllun Busnes HCC 2024 / 2027 a Chynllun Gweithredol HCC 2024 / 2025**

Amcan y gweithdy oedd i'r Bwrdd a'r Swyddogion Gweithredol drafod a chytuno ar amcanion a blaenoriaethau (ar ffurf canlyniadau) ar gyfer pob un o themâu a meysydd gwaith strategol HCC ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

8. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Darparu (HCC 1158)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth.

*Ariannu*

Rhoddwyd diweddariad ar waith HCC yn gwneud ceisiadau am gyllid.

- Gweithdy Cronfa Her Arfor – ymhlith y staff, datblygu syniadau yn barod ar gyfer cais am arian.

- Hyb *Land Use for Net Zero (LUNZ)* – cyflwynwyd cais gan grŵp a oedd yn cynnwys HCC.

- Roedd HCC wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd yn ymwneud â cheisiadau llawn ar gyfer tri phrosiect LUNZ, gan gynnwys un gyda Phrifysgol Queens Belfast, a dau gais ar wahân gan IBERS.

- Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (Cyngor Sir Powys) – Prosiect Cig Eidion Cynaliadwy – Bu cais HCC yn aflwyddiannus (nid oedd digon o arian ar gyfer yr holl geisiadau).

- Horizon Europe – Mae trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru i benderfynu ar alwadau ariannu a phartneru sefydliadau

ymchwil, yn ogystal ag asesu'r posibilrwydd o sefydlu HCC yn sefydliad ymchwil annibynnol cydnabyddedig.

*Ffair Fasnach Anuga Cologne 7 – 11 Hydref 2023*

Bu presenoldeb HCC yn y digwyddiad masnach rhyngwladol blaenllaw hwn ar gyfer bwyd a diod yn llwyddiannus.

Roedd gan HCC leoliad da ar gyfer stondin at ddibenion rhwydweithio. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gan Swyddogion Gweithredol HCC a phroseswyr gyda chwsmeriaid cyfredol a darpar gwsmeriaid.

*Datblygu Marchnadoedd*

Byddai HCC yn cael ei gynrychioli yng nghynhadledd flynyddol Cyngor Mewnforwyr Cig America yn Phoenix, Arizona o 6 – 8 Tachwedd 2023. Byddai'r gynhadledd yn llwyfan i dynnu sylw at gig coch Cymru ac i rwydweithio a datblygu cyfleoedd allforio pellach.

*Blas Cymru / Taste Wales 25 – 26 Hydref 2023*

Nodwyd bod HCC wedi noddi'r Cig Oen Cymru PGI a gafodd ei weini yng Nghinio Gala Blas Cymru.

Roedd presenoldeb HCC yn y cinio wedi bod yn fuddiol. Roedd y Swyddogion Gweithredol wedi canfod nifer o gyfleoedd ac roedd y rhain yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd drwy gysylltiadau yn y gwasanaeth bwyd. Yn ogystal, cysylltwyd â chwsmer posibl o UDA a byddai hyn yn cael ei ddilyn i fyny.

*Ymgyrchoedd Defnyddwyr HCC*

Cafwyd sylwadau cadarnhaol i ymgyrch Cig Oen Cymru PGI, yn enwedig mewn perthynas â'r hysbyseb deledu newydd. Câi'r ymgyrch ei gwerthuso maes o law a byddai'r Bwrdd yn cael gwybod am y canlyniadau.

Roedd gwaith mewn perthynas ag ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI yn ei gamau olaf cyn mynd yn fyw. Dangoswyd y ffurfiau terfynol i'r Bwrdd a chawsant eu cymeradwyo.

*Cynllun Eiriolaeth ac Amddiffyn HCC*

Cyflwynwyd yr uchod gan y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau.

Hysbyswyd y Bwrdd am amcanion HCC, y gynulleidfa darged, y negeseuon allweddol a'r cynllun cyflawni ar gyfer y math hwn o waith.

b. *Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1159)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

c. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Medi 2023 (HCC 1160)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

- Nodwyd bod 2.1% yn llai o ddefaid wedi cael eu lladd nag yn 2022. Byddai'r Swyddogion Gweithredol yn edrych ar ragamcanion ac yn cadw golwg ar hyn.

**Gweithredu:** **Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol**

Nododd y Bwrdd y sefyllfa ariannol bresennol.

d. *Derbyn diweddariad am Gynhadledd Flynyddol HCC – Dydd Iau 9 Tachwedd 2023*

Rhoddwyd diweddariad gan y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau

- Roedd yr holl drefniadau wedi'u cwblhau.
- Crynhowyd rhaglen y dydd.
- Trafodwyd Holi ac Ateb y Bwrdd a phennwyd themâu. Gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd gyrraedd y Ganolfan Aelodau erbyn 2.30pm ar gyfer cyfarfod cyn y gynhadledd.
- Roedd 160 o gynrychiolwyr wedi cofrestru i fynychu.

e. I dderbyn diweddariad am bresenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf – Dydd Llun 27 – Dydd Mawrth 28 Tachwedd 2023

Rhoddwyd diweddariad am yr uchod gan y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau

Byddai'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau.

**Gweithredu:** **Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

f. *Digwyddiadau i ddod (HCC 1161)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

9. **Pwyllgorau HCC**

a. *I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 8 Tachwedd 2023*

Cafwyd adroddiad llafar am faterion allweddol o'r uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

- Ymunodd cynrychiolwyr o Archwilio Cymru ac Azets (Archwilwyr Mewnol) â chyfarfod y Pwyllgor.
- Adolygwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor gydag un newid bach yn unig, sef diweddaru'r ddogfen i ddangos y teitl Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

- Cyflwynwyd papur diweddaru mewn perthynas â sefyllfa TAW HCC i’r Pwyllgor gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

- Byddai effaith y mater hwn yn cael ei drafod yn ystod y Sesiwn Gynllunio a byddai'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau.

  **Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol**

- Adolygwyd dogfen Lywodraethiant HCC ac ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.

- Cyflwynwyd yr Adroddiad Archwilio Mewnol gan Azets. Gwnaed adolygiad o reolaeth rhanddeiliaid a rhoddwyd barn Sicrwydd Sylweddol. Roedd swyddogaeth Gwybodaeth Technoleg HCC yn cael ei adolygu a châi ei chwblhau maes o law.

- Adolygwyd Cofrestr Risg HCC gan y Pwyllgor. Cytunwyd ar ddiwygiadau a diweddariadau arfaethedig a byddai'r ddogfen yn cael ei diweddaru yn unol â hynny.

- Nid oedd unrhyw faterion i'w hadrodd o ran Rheoli Credyd.

- Cytunodd y Pwyllgor, er mwyn caniatáu digon o amser i drafod materion yn fanwl, y byddai cyfarfodydd Pwyllgor yn y dyfodol yn cael eu haildrefnu a'u cynnal ar ddiwrnodau gwahanol i gyfarfodydd y Bwrdd.

- Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol y newidiadau ynghylch yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2022 / 2023 ers y cyfarfod blaenorol (12 Mehefin 2023). Nodwyd bod y sefyllfa ariannol yn aros yr un fath. Yn dilyn adolygiad a thrafodaeth, cytunodd y Pwyllgor i argymell yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol am 2022 / 2023 i'r Bwrdd ar gyfer eu cymeradwyo.

- Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno'r Llythyr Cynrychiolaeth i'r Bwrdd i'w gymeradwyo.

b. *<u>I dderbyn crynodeb o’r pwyntiau allweddol yn y Datganiadau Ariannol 2022 / 2023 (HCC 1162)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

Cadarnhaodd y Bwrdd (Cyfarwyddwyr Anweithredol) nad oedd unrhyw wybodaeth berthnasol bellach yn dod i'r amlwg nad oedd yr archwilwyr wedi cael gwybod amdani.

c. *<u>I dderbyn a chymeradwyo’r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2022 / 2023 (HCC 1163)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

Yn dilyn ystyriaeth, cymeradwyodd y Bwrdd y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2022/2023 a'r Llythyr Cynrychiolaeth a fyddai'n cael ei lofnodi gan y Cadeirydd.

*Gweithgor Arloesi ac Ymchwil Cynaliadwy HCC*

d. I gael diweddariad ynghylch ffurfio'r Gweithgor

Roedd yr hysbyseb i recriwtio aelodau yn fyw ar hyn o bryd a chafwyd diddordeb cadarnhaol hyd yn hyn.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd dydd Gwener 17 Tachwedd 2023.

Rhoddid diweddariad i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2023.

**Gweithredu:** **Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

10. **Papurau er gwybodaeth:**

a. *Marchnad Cig Oen Awstralia (HCC 1164)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

b. *Perfformiad Ariannol Cyfredol Ffermydd Sector Cig Coch Cymru (HCC 1165)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

11. **Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

12. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 11 Ionawr 2024 am 10am
Diweddaru Bwrdd HCC drwy Teams – Dydd Iau 1 Chwefror 2024 am 9.30am.

**DILYNWYD GAN SESIWN BWRDD CAEEDIG HCC**

**Sesiwn Gynllunio Bwrdd ac Uwch-dîm Arweinyddiaeth HCC ar gyfer 2024 / 2025**

Cafodd yr uchod ei ohirio a chafodd ei gynnal drwy Teams ddydd Iau 30 Tachwedd 2023. Cafodd y manylion eu dileu oherwydd mater cyfrinachol na chafodd ei ragweld.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**